# Cyflwr yr Ystad

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru 2018-19











llyw.cymru

# Rhagair



Rebecca Evans

Cynhelir adolygiad blynyddol eleni o'r ystad weinyddol yn erbyn cefndir o gyni parhaus a chyllidebau sy'n dal i fod o dan bwysau. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae amryw o gyflawniadau cadarnhaol i'w hadrodd mewn perthynas â chostau a pherfformiad amgylcheddol.

Mae'r angen i gryfhau ein cydnerthedd yn golygu na allwn ni anwybyddu cost cynnal ein hystad o swyddfeydd ac, er gwaethaf pwysau chwyddiannol, rydym wedi lleihau'r brif gost bron i 3%. Mae'r gost fesul aelod staff yn cymharu'n ffafriol â meincnod cyfatebol Llywodraeth y DU.

Yn ogystal, rhaid i'n hymdrechion i leihau cost cynnal yr ystad ystyried ein haddewidion i drechu tlodi, cyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae cynnal ystad wasgaredig yn cyfrannu at gyfleoedd gwaith a gweithgarwch economaidd lleol ledled cymunedau Cymru, ynghyd â darparu gwasanaethau cyhoeddus hygyrch.

Rwy'n hynod falch bod yr ystad weinyddol wedi gwneud cynnydd cadarnhaol sylweddol o ran lleihau'r defnydd o ynni. Mae allyriadau $CO_2$ wedi gostwng eleni eto ac, erbyn hyn, rydym wedi cyflawni gostyngiad o 66% o waelodlin 2010-11, yn erbyn targed o 30%. Anfonwyd 88% o wastraff i gael ei ailgylchu a chafodd 11% ei ddefnyddio at ddibenion cynhyrchu ynni, gan leihau'r cyfanswm a anfonwyd i safle tirlenwi i lai nag 1%. Mae gwelliannau wedi'u gwneud mewn chwech o'r wyth meincnod ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn ystod y flwyddyn.

Mae'r broses o resymoli'r ystad yng Nghaernarfon yn enghraifft dda o sut rydym yn cyflawni yn erbyn yr amcanion hyn, gan ddangos sut mae ein buddsoddiadau yn y gweithle yn gwella'r profiad i gleientiaid a staff ac yn lleihau costau. Mae symud i swyddfeydd modern wedi rhyddhau ased gwerthfawr a fydd yn cael ei hailddatblygu fel rhan o'r gwaith o adfywio canol tref Caernarfon. Mae'r buddsoddiad yn ffabrig yr ystad, fel y dangosir trwy'r gwaith o ailwampio swyddfa Caerfyrddin, yn cyfrannu'n uniongyrchol at effeithlonrwydd ynni hefyd. Mae gwella bioamrywiaeth ar draws yr ystad yn dal i fod yn flaenoriaeth, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai cyflawniadau arwyddocaol yn hyn o beth.

Rydym yn wynebu llawer o heriau ac ansicrwydd ar drothwy blynyddoedd olaf Strategaeth Leoli 2015-2020, a bydd mwy o heriau ac ansicrwydd o'n blaenau wrth i ni edrych ymhellach i'r dyfodol. Er y byddwn ni'n gallu gwneud gostyngiadau pellach ym maint ein hystad i leihau ein gorbenion ein hunain, mae angen i ni arloesi a gweithio gyda'r sector cyhoeddus ehangach i sicrhau ein bod ni, gyda'n gilydd, yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau posibl er lles pobl Cymru.

# Cynnwys


Rhagair 2

1. Cyflwyniad 4
   - 1.1 Gwybodaeth am yr Adroddiad hwn 4
   - 1.2 Trosolwg 6
   - 1.3 Mesur Perfformiad 7
   - 1.4 Crynodeb o Berfformiad 7

2. Maint yr Ystad 9
   - 2.1 Cyfanswm yr Arwynebedd Llawr 9
   - 2.2 Nifer y Daliadau 9

3. Costau 10
   - 3.1 Cost yr Ystad 10

4. Effeithlonrwydd 12
   - 4.1 Meincnodi 12
   - 4.2 Cost fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn 13
   - 4.3 Cost fesul metr sgwâr 13
   - 4.4 Effeithlonrwydd o ran lle 13
   - 4.5 Adborth gan Staff 14

5. Perfformiad Amgylcheddol 15
   - 5.1 Rheoli a Lleihau Carbon 15
   - 5.2 Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC) 17
   - 5.3 Rheoli Dŵr 18
   - 5.4 Rheoli Gwastraff 18
   - 5.5 Gwella Bioamrywiaeth 19

6. Rhagolwg 2019-20 21

7. Presenoldeb Llywodraeth Cymru Dramor 2018-19 22
   - 7.1 Gwaith y swyddfeydd tramor 22
   - 7.2 Yr Ystad Dramor 22

Atodiadau

Atodiad 1 – Data Eiddo Craidd 2018-19 24

Atodiad 2 – Arbedion y Strategaeth Leoli 26

Atodiad 3 – Trosolwg Rhanbarthol 27

Atodiad 4 – Crynodeb o Berfformiad 2014-2019 28

Atodiad 5 – Astudiaeth Achos: Gwelliannau Amgylcheddol yn Heol Picton 29

Atodiad 6 – Astudiaeth Achos: Doc Fictoria, Caernarfon 31

Atodiad 7 – Eiddo y tu allan i Gwmpas yr Adroddiad: Ystad Arbenigol 32


OGL ISBN digidol 978-1-87836-xxx-x ISBN agraffau 978-1-83933-609-6 © Hawlfraint y Goron 2019 WG39568

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Gwybodaeth am yr Adroddiad hwn

Hwn yw unfed adroddiad blynyddol ar ddeg Llywodraeth Cymru ar Gyflwr yr Ystad. Mae'n darparu asesiad o berfformiad yr ystad weinyddol o ran effeithlonrwydd a'r amgylchedd yn ystod 2018-19 yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, perfformiad hanesyddol, sefydliadau tebyg yn y sector cyhoeddus a thargedau ac amcanion Strategaeth Leoli 2015-2020.

Nod cyffredinol y Strategaeth Leoli yw darparu ystad gynaliadwy a chosteffeithiol o ansawdd uchel yn y lleoliadau cywir er mwyn cefnogi gweithrediadau busnes Llywodraeth Cymru.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2015-2020:

- ystad wasgaredig yn y lleoliadau cywir, a honno'n cynnwys llai o adeiladau, sydd wedi eu gwella'n sylweddol o ran ansawdd a pherfformiad;
- amgylcheddau gwaith modern, hyblyg a chefnogol sydd â'r dechnoleg gywir i alluogi staff i weithio'n effeithlon;
- llai o gostau gweithredu sy'n adlewyrchu'r heriau ariannol cynyddol;
- ad-drefnu'r ystad swyddfeydd i greu 15 o swyddfeydd craidd a gweithredol sy'n cynnwys llai na 70,000 metr sgwâr o lety swyddfa.

Defnyddir egwyddorion arweiniol fel y prif amcanion strategol sy'n sylfaen i'r nodau hyn, gan gynnwys:

- Cefnogi prif bolisïau ac anghenion busnes Llywodraeth Cymru. Bydd y Strategaeth Leoli yn cynnal ymrwymiad y Llywodraeth i gael ei lleoli ledled Cymru, gan sicrhau dosbarthiad priodol o bresenoldeb a chyflogaeth yn genedlaethol.
- Gwella effeithlonrwydd yr ystad gan wneud y defnydd gorau o un o asedau allweddol y Llywodraeth, sicrhau gostyngiadau mewn costau gweithredu a helpu i glustnodi adnoddau at gyflawni strategaeth genedlaethol rheng flaen y Llywodraeth i sicrhau Cymru fwy ffyniannus.
- Darparu gweithleoedd sy'n darparu amgylcheddau diogel ac iach sy'n cyfrannu at lesiant staff.
- Darparu'r gweithfannau a'r cyfleusterau priodol i staff wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant cyffredinol y busnes i gyflawni amcanion craidd Llywodraeth Cymru.
- Gan adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol, bydd yr ystad yn parhau i gael ei rheoli mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy, gan helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy strategaeth reoli amgylcheddol integredig ac uchelgeisiol a fydd yn lleihau effeithiau amgylcheddol ac yn gwella bioamrywiaeth ymhellach.
- Mae cyflawni defnydd llawn o safleoedd a lleihau llefydd gwag yn dal i fod yn rhan annatod o nodau'r Strategaeth Leoli.
- Parhau i fabwysiadu cymhareb gyfartalog o 8 gweithfan i bob 10 aelod o staff (8:10) o leiaf.

Mae heriau allweddol yn cynnwys gwneud y defnydd gorau posibl o le a gwella perfformiad amgylcheddol. Y nod ar yr un pryd yw ceisio gwneud arbedion gweithredol sylweddol a gwella effeithiolrwydd gweithredol ledled Cymru gyfan.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gyfrannu at y gwaith o gyflawni saith nod llesiant, sy'n ceisio creu:

- Cymru lewyrchus
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog
- Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Amcan penodol y Strategaeth Genedlaethol, 'Ffyniant i Bawb', yw darparu'r cymorth priodol ar gyfer pobl a busnesau; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol; hyrwyddo gwaith teg a datgarboneiddio gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, mae'n cynnwys ymrwymiad cadarn i gydleoli gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ystad weinyddol yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr amcanion hyn trwy gefnogi cyflogaeth ranbarthol; galluogi gwasanaethau effeithiol o ystad wasgaredig, a thrwy ddarparu amgylchedd gwaith modern a pholisïau gweithio hyblyg.

Mae'r Strategaeth Leoli yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol[1], er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gydnaws ag anghenion busnes ac yn gallu ymateb yn gyflym i newid. Mae rhesymoli yn rhan allweddol o'r strategaeth: cau swyddfeydd, yn dilyn ymgynghoriad, a lle bo hynny'n briodol i anghenion busnes. Mae arbedion a gyflawnir yn cael eu hailgyfeirio i wella'r ystad sy'n weddill a chefnogi gyda darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd adolygiadau parhaus o anghenion rhanbarthol yn 2018-19, ac mae'r rhain yn parhau i gael eu cynnal. Bydd gwaith cyfuno yn y Canolbarth (Powys) yn gweld swyddfeydd y Drenewydd a Llandrindod yn cael eu cadw. Bydd y prosiectau hyn yn cael eu cwblhau yn 2020-2021 ac yn rhyddhau safle i'w ailddatblygu fel cyfraniad at bolisïau economaidd a thai ehangach.

Bydd y broses o ddatblygu'r fersiwn nesaf o'r Strategaeth Leoli yn cychwyn yn 2019. Bydd yn defnyddio canfyddiadau adolygiad o Strategaeth 2015-2020.

Mae gweddill yr adran hon o'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r ystad yn nhermau effeithlonrwydd, perfformiad amgylcheddol, dangosyddion perfformiad allweddol a chrynodeb o berfformiad ariannol ac amgylcheddol yr ystad yn 2018-19.

Mae Adran 2 yn edrych yn fanylach ar faint yr ystad. Mae Adran 3 yn ystyried costau gweithredu'r ystad, ac fe'i hategir gan y data yn Atodiad 1. Mae effeithlonrwydd cyffredinol yr ystad yn cael ei drafod yn Adran 4, ac mae Adran 5 yn cynnwys gwybodaeth fanylach am berfformiad amgylcheddol. Mae Adran 6 yn edrych ymlaen at 2019-20. Mae Adran 7 yn dod â'r adroddiad i ben, ac mae'n adrodd ar bresenoldeb tramor Llywodraeth Cymru.

Mae Atodiadau 5 a 6 yn cynnwys dwy astudiaeth achos sy'n dangos sut y gwireddwyd rhai o'r amcanion allweddol dros gyfnod yr adroddiad.

[1] Mae'r Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol yn darparu'r mecanwaith hollbwysig ar gyfer llywio ac adolygu strategaeth yr ystad yn erbyn anghenion busnes datblygol Llywodraeth Cymru. Rôl y Grŵp yw darparu cyngor. Yn ogystal, rhaid i bob cais newydd ynglŷn â llety gael ei drafod drwyddo. Mae'r broses o gyfeirio dyheadau ynghylch eiddo at y Grŵp yn sicrhau cysondeb, cydgyfeiriant polisïau a'r gwerth gorau.

## 1.2 Trosolwg

### a) Effeithlonrwydd

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr 18 o swyddfeydd craidd ledled Cymru a oedd yn rhan o ystad weinyddol Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2019.

Nid yw 8 eiddo arbenigol ychwanegol, gan gynnwys storfeydd, canolfannau rheoli traffig a'r pafiliwn ar faes y Sioe Frenhinol, wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o gost ac effeithlonrwydd yn yr adroddiad hwn. Mae Atodiad 7 yn cynnwys manylion maint a chost flynyddol yr eiddo hwn.[2]

Nid yw 21 eiddo tramor Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn. Mae Adran 7 yn darparu trosolwg o'r ystad dramor ac yn crynhoi costau'r eiddo hwn.

Mae'r ystad weinyddol graidd yn cynnwys gweithlu o 5,219[3] o aelodau staff a chontractwyr cyfwerth ag amser llawn mewn 18 o swyddfeydd, ag arwynebedd llawr o 76,836 metr sgwâr.

Mae nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu 52 ers mis Mawrth 2018 (1%).

Y gost o gynnal yr ystad yn 2018-19 oedd £17.920 miliwn: gostyngiad o £557,000 ers 2017-18. Mae'r data eiddo allweddol ar gyfer y swyddfeydd hyn yn Atodiad 1.

Mae'r Strategaeth Leoli bresennol yn ceisio lleihau'r swyddfeydd a ddefnyddir i lai na 70,000 metr sgwâr erbyn 31 Mawrth 2020, gan wneud arbedion gros bras o rhwng £3.0 miliwn a £3.5 miliwn ac arbedion costau cynnal o tua £2.5 miliwn y flwyddyn ar ôl 2020[4].

Disgwylir y bydd buddsoddi mewn gwariant ataliol a dulliau gweithio mwy hyblyg yn cyfrannu at sicrhau effeithlonrwydd yn y dyfodol. Mae'r swyddfeydd lesddaliad newydd yn Noc Fictoria, Caernarfon, a gaffaelwyd yn ystod 2018, wedi galluogi staff i adleoli o hen swyddfeydd ym Mhenrallt Uchaf gerllaw. Mae hyn wedi lleihau'r arwynebedd llawr a ddefnyddir a'r gost fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn, a darparu amgylchedd gwaith o safon uchel i staff Llywodraeth Cymru. Arhosodd y ddau is-denant blaenorol yng nghanol y dref, gyda DEFRA yn manteisio ar y cyfle i gydleoli â Chyngor Sir Gwynedd.

### b) Mynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd a Pherfformiad Amgylcheddol

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod safon uchel o berfformiad amgylcheddol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi bod angen o leiaf 80% yn llai o allyriadau $CO_2$ yn gyffredinol erbyn 2050. Ar 31 Mawrth 2019, roeddem wedi sicrhau gostyngiad o 66% ers blwyddyn sylfaenol 2010-11. Mae'r defnydd o ddŵr gan bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng 1.6% ac allyriadau carbon o nwy a thrydan wedi gostwng 21.2% dros gyfnod yr adroddiad hwn. Cynyddodd cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir 6.3%, ond roedd 88% yn cael ei ailgylchu ac 11% yn cael ei anfon i gynhyrchu ynni, a gostyngodd y cyfanswm a anfonir i safle tirlenwi i 1%.

Mae lleihau ein heffaith amgylcheddol yn flaenoriaeth o hyd, a'r nod yw parhau i sicrhau bod yr ystad yn gweithredu mewn modd sy'n fwyfwy cynaliadwy ac effeithlon.

2 Mae ffigurau carbon yn ymwneud ag eiddo tramor wedi'u cynnwys yn Adran 5.
3 Mae'r oriau a weithir gan staff rhan-amser yn cael eu cyfuno i gael nifer cyfwerth o swydd llawn amser.
4 Mae'r ffigurau hyn yn anwybyddu effaith chwyddiant.

## 1.3 Mesur Perfformiad

Mae perfformiad ein hystad yn cael ei fesur yn erbyn cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol:

- newidiadau ym maint cyffredinol a chyfanswm cost cynnal yr ystad;
- gwelliannau i effeithlonrwydd gweithleoedd wedi'u mynegi ar ffurf £/FTE;
- y defnydd o'r lle a feddiannir wedi'i fynegi ar ffurf metr sgwâr/FTE;
- sgoriau Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC)
- perfformiad amgylcheddol yn erbyn amcanion a thargedau ar gyfer allyriadau $CO_2$, cynhyrchu gwastraff, ailgylchu gwastraff a defnydd dŵr.

## 1.4 Crynodeb o Berfformiad

Mae'r tabl canlynol yn dangos perfformiad yn 2018-19 yn erbyn y flwyddyn flaenorol a thargedau 2020[5]. Bu gwelliannau mewn dau Ddangosydd Perfformiad Allweddol pwysig, sef cost fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) ac effeithlonrwydd o ran lle. Mae'r gwelliannau hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y lle sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghaernarfon ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae perfformiad amgylcheddol yn dal i fod yn gryf, gyda gwelliannau yn erbyn pob Dangosydd Perfformiad Allweddol ac eithrio cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir. Mae'r gallu i anfon gwastraff i gynhyrchu ynni wedi helpu i leihau'r cyfanswm a anfonir i safle tirlenwi.

### Crynodeb o Berfformiad: Y Prif Ddata a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ystad weinyddol Llywodraeth Cymru

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | % Newid | Sgôr | Targedau 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad – metr sgwâr | 80,325 | 76,836 | 4.36% | ○ | 70,000 |
| Nifer yr Eiddo | 20 | 18 | 10.00% | ○ | 16 |
| Cost yr Ystad £ | 18.477m | 17.920m | 2.99% | ○ | 15.5m |
| Rhent £ | 5,600m | 5.328m | 4.86% | ○ | 4.7m |
| Ardrethi £ | 2.810m | 2.863m | 1.89% | ▲ | 2.6m |
| Arall £ | 10.067m | 9.729m | 3.35% | ○ | 8.2m |

○ Gwella ▲ Gwaethygu

5 Gosodwyd y targedau ar ddechrau cyfnod Strategaeth 2015-2020. Nid yw'r targedau na'r ffigurau perfformiad wedi'u haddasu i ystyried chwyddiant.

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | % Newid | Sgôr | Targedau 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithlonrwydd** | | | | | |
| Cost fesul FTE | £3,576 | £3,428 | 4.1% | ○ | £2,696 |
| Effeithlonrwydd o ran Cost – £ fesul metr sgwâr | 230.02 | 233.22 | 1.4% | ▲ | 221 |
| Rhent £ fesul metr sgwâr | 69.71 | 69.34 | 0.5% | ○ | 68 |
| Ardrethi £ fesul metr sgwâr | 34.98 | 37.26 | 6.55% | ▲ | 37 |
| Arall £ fesul metr sgwâr | 125.33 | 126.62 | 1.05% | ▲ | 118 |
| Effeithlonrwydd o ran Lle – metr sgwâr fesul FTE | 15.5 | 14.7 | 5.16% | ○ | 12 |
| Metr sgwâr fesul gweithfan | 12.63 | 12.91 | 2.22% | ▲ | 11 |
| Gweithfannau fesul FTE | 1.23 | 1.14 | 7.32% | ○ | 1 |
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | |
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 5,376 | 4,236 | 21.20% | ○ | Gostyngiad o 30% erbyn 2020 ar waelodlin 2010/11 |
| Trydan (t $CO_2$) | 4,259 | 3,193 | 25.00% | ○ | |
| Nwy (t $CO_2$) | 1,117 | 1,043 | 6.60% | ○ | |
| Cyfanswm gwastraff sy'n dod i'r golwg (Tunelli) | 350 | 372 | 6.30% | ▲ | Gostyngiad o 1.5% y flwyddyn |
| Safle Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 12 | 1 | 91.67% | ○ | Cynyddu ailgylchu i 80% |
| Troi Gwastraff yn Ynni (% o'r cyfanswm) | - | 11 | - | ○ | |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 88 | 88 | 0.00% | ■ | |
| Dŵr (metr ciwbig/unigolyn/ blwyddyn) | 6.3 | 6.2 | 1.60% | ○ | $6m^3$ y pen y flwyddyn mewn |

○ Gwella ▲ Gwaethygu ■ Dim Newid

Mae crynodeb o berfformiad yr Ystad rhwng 2014 a 31 Mawrth 2019 ar gael yn Atodiad 4.

# 2. Maint Yr Ystad

## 2.1 Cyfanswm yr Arwynebedd Llawr

Mae'r lle craidd a feddiannir gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng 3,489 metr sgwâr i 76,836 metr sgwâr dros y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2019. Gellir priodoli'r gostyngiad yn rhannol i fân newidiadau yn y lle a osodir i gyrff cyhoeddus eraill, ond yn bennaf i wacáu'r eiddo canlynol:

- Hill House, Caerfyrddin (612 metr sgwâr)[6].
- Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr (329.5 metr sgwâr).
- Dau lawr ar Heol Picton, Caerfyrddin (582 metr sgwâr).
- Penrallt Uchaf, Caernarfon (2,546 metr sgwâr).

Mae'r lle gwag ar Heol Picton ar y farchnad i'w osod ar hyn o bryd. Derbyniwyd cynnig ar Benrallt Uchaf ac, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, bydd yn cael ei ailddatblygu at ddefnydd preswyl. Mae 738 metr sgwâr o swyddfeydd modern yn Noc Fictoria, Caernarfon wedi'i brydlesu ar gyfer staff Penrallt Uchaf.

Yn 2019-2020, byddwn yn cau Tŷ Southgate, Caerdydd (371 metr sgwâr), Tŷ Clarence, Casnewydd (311 metr sgwâr) a Phlas Carew, Nantgarw (1,950 metr sgwâr).

Mae eiddo newydd wedi'i gaffael yn Oak House, Casnewydd (447.5 metr sgwâr) yn lle Tŷ Clarence. Bydd yr eiddo hwn yn derbyn staff o Dŷ Clarence a'r swyddfa Tribiwnlys Cymru sydd wedi'i lleoli yn Nhŷ Southgate ar hyn o bryd.

Effaith net cau'r swyddfeydd yn yr adeiladau hyn fydd gostyngiad o oddeutu 2,184 metr sgwâr yn y lle a feddiannir.

Bydd newidiadau arfaethedig ym Mhowys ar gyfer 2020-21 yn gweld y staff yn Spa Road, Llandrindod yn cydleoli â Chyngor Sir Powys yn Neuadd y Sir, a gostyngiad yn y lle a feddiannir yn y Drenewydd. Bydd y symudiadau hyn yn arwain at ostyngiad o oddeutu 1,600 metr sgwâr ym maint yr ystad.

Mae'r lle a feddiannir wedi gostwng o 101,000 metr sgwâr yn 2008 i 76,836 metr sgwâr ar 31 Mawrth 2019, sef gostyngiad o 24%.

Mae'r penderfyniad i gadw QED, Trefforest yn y tymor canolig a'r oedi o ran rhesymoli'r ystad yn y Canolbarth (Powys) yn rhesymau allweddol dros ragori ar y targed ar gyfer 2020, sef 70,000 metr sgwâr.

## 2.2 Nifer y Daliadau

Ar 31 Mawrth 2019, roedd ystad weinyddol Llywodraeth Cymru yng Nghymru yn cynnwys 18 o swyddfeydd gweithredol craidd. Bydd cau Tŷ Southgate, Caerdydd a Phlas Carew, Nantgarw yn gostwng hyn i 16 eiddo.

Mae crynodeb o'r daliadau craidd ar 31 Mawrth 2019 ar gael yn Atodiad 1, ac mae trosolwg rhanbarthol o'r ystad wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

[6] Ymddangosodd costau Hill House yn adroddiad Cyflwr yr Ystad 2017-18. Gadawyd yr eiddo ym mis Gorffennaf 2017, ond ni chafodd ei roi ar y farchnad tan 2018-19.

# 3. Costau

Cyfanswm cost meddiannaeth am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 oedd £17,920,204, gostyngiad o £556,337 dros y 12 mis diwethaf. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau rhent gwirioneddol eiddo lesddaliadol, rhent tybiedig mewn cysylltiad ag eiddo rhydd-ddaliadol, ardrethi busnes, alldaliadau eraill a TAW. Mae defnyddio rhent tybiedig yn golygu bod modd gwneud cymhariaeth ag eiddo lesddaliadol ac ystadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae'r costau wedi gostwng yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y lle a feddiannir. Rydym wedi gweld gostyngiad yn y costau rhent a chostau eraill. Mae'r ardrethi sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu 1.89%, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn Ardrethi Busnes Unffurf.

## 3.1 Cost yr Ystad

Mae cost flynyddol yr ystad rhwng 2013 a 2018 i'w gweld yn Atodiad 4. Mae'r costau'n cynnwys:

- ymrwymiadau rhentu a rhent tybiedig mewn cysylltiad ag eiddo rhydd-ddaliadol;
- ardrethi;
- costau cynnal a chadw;
- taliadau ar gyfer gwasanaethau;
- costau cyfleustodau;
- costau diogelwch; a
- Lwfansau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon.

Mae costau rhentu wedi gostwng tua £272,000 (4.79%) dros gyfnod yr adroddiad wrth i Lywodraeth Cymru adael swyddfeydd ym Mharc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr; Heol Picton, Caerfyrddin; a Phenrallt Uchaf, Caernarfon. Mae costau 2018-19 yn adlewyrchu hefyd y ffaith bod Hill House wedi'i waredu o'r ystad graidd. Mae'r gostyngiadau hyn wedi'u gwrthbwyso'n rhannol yn sgil caffael lle newydd yn Noc Fictoria, Caernarfon.

Cynyddodd Ardrethi Busnes Unffurf yng Nghymru o 49.9c i 51.4c yn 2018-19. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, roedd rhaid talu tua £53,000 yn fwy o ardrethi. Roedd yr ardrethi a oedd yn daladwy mewn perthynas â'r 3 eiddo a adawyd yn fwy na £90,000.

Gostyngodd alldaliadau eraill £338,000 y llynedd. Cyfrannodd cau'r swyddfeydd uchod at y gostyngiad hwn.

Gellir disgwyl arbedion ychwanegol o fwy na £900,000 mewn rhenti, ardrethi ac alldaliadau eraill o ganlyniad i'r cynlluniau i gau swyddfeydd yn 2019-20. Caiff y rhain eu gwrthbwyso'n rhannol gan gostau Oak House, Casnewydd.

| Cyfleustodau | 2015-2016 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | % Newid o gymharu â'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|
| Dŵr £ | 146,923 | 144,290 | 112,006 | 118,008 | 5.4% |
| Nwy £ | 260,380 | 193,364 | 210,426 | 179,655 | -14.6% |
| Trydan £ | 1,421,536 | 1,295,386 | 1,367,249 | 1,267,586 | -7.3% |
| **Cyfanswm** | **£1,828,839** | **£1,663,040** | **£1,689,681** | **£1,565,249** | **-7.4%** |

Mae biliau cyfleustodau wedi gostwng 7.4%. Mae costau dŵr wedi cynyddu, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn. Mae costau nwy wedi gostwng 14.6% a thrydan wedi gostwng 7.3%.

Mae Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) yn gynllun gorfodol i adrodd ar allyriadau, sy'n effeithio ar sefydliadau mawr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Ei nod yw lleihau allyriadau $CO_2$ trwy effeithlonrwydd ynni. Mae Llywodraeth Cymru yn prynu 'lwfansau' ar gyfer pob tunnell o garbon sy'n cael ei hallyrru yn sgil defnyddio nwy a thrydan.

Yn 2018-19, prynwyd 16,519 o lwfansau gan Lywodraeth Cymru am gost o £285,632. Priodolwyd 4,181 o'r lwfansau hyn i'r ystad weinyddol am gost o £72,289 (£17.29 y dunnell).



# 4. Effeithlonrwydd

Mae effeithlonrwydd cost yr ystad yn ddadansoddiad o gostau ar sail gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, yr arwynebedd llawr gweithredol a gweithfannau. Mae crynodeb o berfformiad yn erbyn y flwyddyn flaenorol a thargedau 2020 i'w weld yn 1.4 ac mae crynodeb o 2015 i 2019 i'w weld yn Atodiad 4.

Yn ystod 2018-19, gostyngodd y costau cyffredinol 4% i £3,428 fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn, er gwaethaf pwysau chwyddiant ar gostau cynnal a chadw a chyfleustodau. Cyflawnwyd hyn trwy reoli gwariant ac adnoddau'r ystad yn effeithiol a thrwy ostyngiad o 3,489 metr sgwâr yn yr arwynebedd llawr.

Mae'r ffigur ar gyfer effeithlonrwydd o ran lle wedi cynyddu hefyd o 15.1 metr sgwâr i 14.7 metr sgwâr fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, unwaith eto oherwydd gostyngiad yn y lle a feddiannir.


Mae gwaith yn parhau ar y rhaglen i resymoli'r ystad. Bydd y penderfyniad i gau Tŷ Southgate, Caerdydd, Tŷ Clarence, Casnewydd a Phlas Carew, Nantgarw yn lleihau maint yr ystad 2,184 metr sgwâr[7][8].

Mae prosiectau rhesymoli pellach ar waith, gyda chynigion ar gyfer lleihau maint yr ystad yn y Drenewydd ac yn Llandrindod.

**Mae ystad weinyddol Llywodraeth Cymru yn parhau i berfformio'n well nag Ystad Llywodraeth y DU ar amryw o fesurau effeithlonrwydd**[9].

## 4.1 Meincnodi

Gellir crynhoi'r dangosyddion perfformiad allweddol fel a ganlyn:




7 Mae Oak House, Casnewydd wedi disodli Tŷ Clarence.

8 Yn seiliedig ar gostau 2018-19.

9 The State of the Estate 2017-18 www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/766271/CO_State_of_the_Estate_Report_2017-2018.PDF.

## 4.2 Cost fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn

Roedd 5,219 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2018-19, sef cynnydd o 52. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gweithwyr cyflogedig a chontractwyr Llywodraeth Cymru. Mae staff contractwyr wedi'u cynnwys yn y ffigur cyffredinol oherwydd eu bod yn cefnogi busnes y Llywodraeth, gan weithio yn eiddo'r Llywodraeth, a'i ddefnyddio, yn yr un modd â gweithwyr cyflogedig Llywodraeth Cymru. Trwy letya contractwyr yn ein swyddfeydd, rydym yn gwneud arbedion cyffredinol, gan leihau costau gweithredu contractwyr a lefel y ffioedd a delir gan Lywodraeth Cymru.

Roedd cost gyfartalog ystad Llywodraeth Cymru fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn yn **£3,428 ar 31 Mawrth 2019**, gostyngiad o tua 4% o gymharu â'r llynedd. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf oherwydd yr arbedion a wnaed yn sgil rhesymoli'r lle a feddiannir.

Y ffigur cyfatebol diweddaraf ar gyfer Ystad Llywodraeth y DU (2017-18) yw £4,553 fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn[10]. Mae perfformiad ystad Llywodraeth Cymru yn cymharu'n ffafriol iawn â'r ffigur hwn.

## 4.3 Cost fesul metr sgwâr

Ar hyn o bryd, mae rhent yn costio £69.34 fesul metr sgwâr ar gyfartaledd, gwelliant bach o 37c fesul metr sgwâr o gymharu â'r llynedd.

Mae'r ardrethi sy'n daladwy wedi cynyddu £2.28 fesul metr sgwâr dros y flwyddyn.

Mae 'Costau Eraill', sy'n cynnwys cyfleustodau, cynnal a chadw, taliadau gwasanaeth, yswiriant ac ati wedi cynyddu £1.29 fesul metr sgwâr yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn oherwydd pwysau chwyddiant ar gostau cynnal yr ystad.

**Cyfanswm y gost fesul metr sgwâr ar gyfartaledd ledled yr ystad ar 31 Mawrth 2019 oedd £233.22** o gymharu â £230.02 yn 2018, sef cynnydd o 1.4%.

Y ffigur cyfatebol diweddaraf ar gyfer Ystad Llywodraeth y DU (2017-18) yw £486 fesul metr sgwâr. Mae perfformiad ystad Llywodraeth Cymru yn cymharu'n ffafriol â'r ffigur hwn.

## 4.4 Effeithlonrwydd o ran Lle

Roedd effeithlonrwydd o ran lle wedi gwella 0.4 metr sgwâr (2.7%) i 14.7 metr sgwâr fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn sgil cau swyddfeydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chaerfyrddin a lleihau'r lle yng Nghaernarfon.

Rhagwelir gwelliannau pellach y flwyddyn nesaf yn dilyn newidiadau sydd ar y gweill yng Nghaerdydd a'r De-ddwyrain.

[10] The State of the Estate 2017-18 p34 www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/766271/CO_State_of_the_Estate_Report_2017-2018.PDF.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i dangyflawni o gymharu ag ystad Llywodraeth y DU, a oedd yn mesur 9.4 metr sgwâr fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn 2017-18. Mae'r ffigur effeithlonrwydd is yn ystad Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r nod strategol o gynnal ystad sydd wedi'i gwasgaru'n rhanbarthol ledled Cymru. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i sicrhau mwy o arbedion maint, ond mae'n cefnogi amcanion polisi economaidd a chymdeithasol ehangach.

## 4.5 Adborth gan Staff

Mae polisi Llywodraeth Cymru o gynnwys aelodau staff a gwrando ar adborth ganddynt wedi'i sefydlu yn ein rhaglen gwella busnes ac mae'n cynnwys arolwg blynyddol sy'n rhoi'r cyfle i'r staff ddarparu adborth ar yr amgylchedd gwaith. Cymerodd 73% o staff ran yn yr arolwg, a chafwyd ymateb cadarnhaol gan 74% ohonynt.



# 5. Perfformiad Amgylcheddol 2018-19

Mae cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng Gwasanaethau Cyfleusterau, contractwyr craidd a chydweithwyr eraill yn Llywodraeth Cymru wedi arwain at welliannau mawr mewn perfformiad amgylcheddol ar draws 6 o'r 8 categori.

Rydym wedi rhagori ar y targed i leihau carbon 30% erbyn 2020: mae allyriadau wedi lleihau 66% ers blwyddyn sylfaenol 2010-11. Cyflawnwyd arbedion o 1,140 tunnell o $CO_2$ yn 2018-19.


Ailgylchwyd 88% o wastraff unwaith eto yn 2018-19, gyda llai nag 1% yn cael ei anfon i safle tirlenwi. Defnyddiwyd y gweddill i adfer ynni. Defnyddiodd pob person 1.6% yn llai o ddŵr dros gyfnod yr adroddiad, gan gynnal y meincnod arfer da o $6m^3$ y person y flwyddyn.

Mae prosiectau bioamrywiaeth ar yr ystad yn ceisio cefnogi bywyd gwyllt lleol trwy greu cynefinoedd newydd a phlannu coed brodorol, ac mae gennym wenynfeydd mewn 4 o'n swyddfeydd.

## 5.1 Rheoli a Lleihau Carbon

Roedd allyriadau carbon 2018-19 yn 4,236 $CO_2$; **gostyngiad o 1,140 tunnell (21%)** o gymharu â 2017-18. Erbyn hyn, mae allyriadau wedi **gostwng 8,326 tunnell ers 2010-11**, sy'n ffigur sylweddol. Y targed yw gostwng yr allyriadau i lai na 4,000 tunnell erbyn 31 Mawrth 2020.


Cyfanswm Allyriadau Carbon Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru




# Rheoli Carbon ar draws Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru

### Ar draws yr Ystad

- Cynyddu effeithlonrwydd ynni adeiladau drwy brosiectau cyfalaf ac optimeiddio
- Mesuryddion, monitro a thargedu ar y rhyngrwyd
- Inswleiddio pibellau, cantelau a falfiau
- Polisi Tymheredd Adeiladau diwygiedig
- Tapiau trydanol sy'n cynhesu dŵr ar unwaith
- Wrinalau heb ddŵr mewn amrywiol safleoedd
- Arolygon adeiladau yn rheolaidd.





**Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno**

- Boeler biomas
- Falfiau parth ar gyfer system wresogi
- Oeri aer gan ddefnyddio'r pwll dŵr
- Aer oer o ffenestri awtomatig
- System fecanyddol i oeri ystafelloedd gweinyddion

**Rhodfa Padarn, Aberystwyth**

- System gwresogi ardal gan ddefnyddio boeler biomas
- Aer oer o ffenestri awtomatig
- System fecanyddol i oeri ystafelloedd gweinyddion
- Paneli solar ffotofoltaig yn y maes parcio

**Rhyd-y-car, Merthyr Tudful**

- Boeler biomas wedi'i osod
- Peiriannau monitro ansawdd aer a pheiriannau i sicrhau cyflenwad o awyr iach
- Goleuadau LED yn y grisiau a'r toiledau

**Heol Picton, Caerfyrddin**

- Adeilad wedi'i adnewyddu'n bwrpasol i arbed ynni
- Paneli solar ffotofoltaig ar y to

**Llys-y-Ddraig, Abertawe**

- Ailwampio'r to
- Optimeiddio systemau rheoli'r adeilad

**Parc Cathays, Caerdydd**

- Ailbeiriannu system wresogi
- Uwchraddio system reoli'r adeilad
- Awyru'r maes parcio yn seiliedig ar fonitro $CO_2$
- Lleihau goleuadau yn ystod y nos

**Tŷ'r Afon, Bedwas**


- System oeri wedi'i huwchraddio

OGL WG36626 © Hawlfraint y Goron 2019

## 5.2 Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC)

Mae'r Dystysgrif Ynni i'w Harddangos wedi'i chynllunio i ddangos perfformiad ynni cymharol adeiladau ar raddfa rhwng 'A' a 'G' – 'A' yw'r mwyaf effeithlon. Mae perfformiad yn seiliedig ar ddefnydd ynni gwirioneddol dros gyfnod o 12 mis, ac mae'n ymwneud â maint yr adeilad a pha fath o adeilad ydyw. Mae unrhyw sgôr o dan 100 yn arwydd o berfformiad gwell na'r cyfartaledd.

Perfformiad DEC Safle 2018-2019




Nid yw'r sgôr gyfartalog wedi newid ers 2017-18. Perfformiodd pob swyddfa yn well na'r cyfartaledd ar gyfer ei math a'i maint, ac eithrio Rhyd-y-car, Merthyr Tudful.


- Roedd 6 o bob 10 swyddfa wedi dangos rhywfaint o welliant ers 2017-18.
- Roedd sgôr y swyddfa a oedd wedi perfformio waethaf, sef Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful, wedi gwella 4 pwynt ers 2017-18, a disgwylir iddi wella yn dilyn gosod boeler biomas yn 2018-19.
- Roedd sgôr Heol Picton wedi disgyn. Roedd hyn i'w ddisgwyl gan nad oedd y safle yn llawn yn ystod y gwaith ailwampio yn y cyfnod asesu blaenorol.

## 5.3 Rheoli Dŵr

Cynyddodd y defnydd o ddŵr oherwydd y niferoedd uwch o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, ond roedd y cyfaint y pen wedi **gostwng 1.6%** o 6.3m$^3$ i 6.2m$^3$ yn ystod 2018-19. Roedd 8 swyddfa wedi **cyflawni neu ragori ar y targed arfer da o 6.0m$^3$**; gyda Chyffordd Llandudno yn **rhagori ar y targed arfer gorau o 4.0m$^3$**.

Cynhelir arolwg rheoli dŵr yn ystod 2019-20 a bydd camau gweithredol yn cael eu cymryd i leihau'r defnydd o ddŵr ymhellach.

Defnydd Dŵr – (M³ y person)




## 5.4 Rheoli Gwastraff


Mae cyfran y deunyddiau gwastraff sy'n cael eu hailgylchu yn **88% o hyd**, gan barhau i ragori ar darged 2020, sef 80%. **Anfonwyd 11% o'r gwastraff i adfer ynni**, gyda llai nag **1% yn mynd i safle tirlenwi.**

Mae parhau i gydweithio â chontractwyr rheoli gwastraff wedi sicrhau bod yr holl ddeunyddiau'n cael eu prosesu'n effeithlon. Mae'r gwaith didoli eilaidd a wneir yn y 4 prif safle yn golygu bod modd monitro'r mathau o wastraff, gan leihau croes-halogiad.

Roedd y camau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2018-19 i leihau'r gwastraff a grëwyd, yn enwedig plastig, yn cynnwys:

- cael gwared ar gwpanau diodydd poeth untro o bob gwasanaeth arlwyo;
- cyflwyno cyllyll a ffyrc y gellir eu hailddefnyddio yn lle rhai untro; a
- cael gwared ar wellt a photiau untro ar gyfer cynhyrchion bwyd tecawê.

% y Gwastraff a Ailgylchwyd bob Blwyddyn




## 5.5 Gwella Bioamrywiaeth

Mae amryw o fesurau newydd wedi'u cyflwyno i ddiogelu a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt lleol ym mhob swyddfa graidd, gan gynnwys gardd blodau gwyllt ar y to a gwenynfa arall, y bedwaredd, ym Mharc Cathays. Mae pwll bach wedi'i osod yn Rhyd-y-car, Merthyr Tudful ac mae bwydwyr adar yn denu adar gwyllt i lawer o'r safleoedd gydol y flwyddyn.

Mae camau gweithredu sy'n parhau yn cynnwys:

- torri'r glaswellt yn llai aml ar safleoedd amrywiol;
- creu cartrefi ar gyfer draenogod a phryfed;
- gosod bocsys ar gyfer adar ac ystlumod;
- defnyddio plaladdwyr sy'n ystyriol o fyd natur; a
- cynllunio gerddi sy'n ystyriol o fyd natur.

Mae'r tîm Gwasanaethau Cyfleusterau yn parhau i weithio'n agos gyda'r contractwyr tirlunio meddal ac ecolegwyr i adeiladu ar y camau sydd eisoes wedi'u cymryd.

# Bioamrywiaeth ar draws ystad weinyddol Llywodraeth Cymru



**Aberystwyth, Rhodfa Padarn**



- Blychau ystlumod
- Baddonau adar
- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Gwenynfa (mewn cydweithrediad â chymdeithas cadw gwenyn Aber)
- Cuddfannau cacwn
- Cartrefi chwilod
- Biniau compost
- Cartrefi draenogod
- Cuddfan nadroedd defaid
- Gorsaf dywydd i fonitro glöynnod byw
- Ardal blodau gwyllt
- Defnyddio gronynnau coffi wrth dirlunio

**Cyffordd Llandudno, Sarn Mynach**



- Blychau ystlumod
- Gwenynfa (mewn cydweithrediad ag arbenigwr Vinci a chymdeithas cadw gwenyn Conwy)
- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Cartrefi chwilod
- Cartrefi draenogod
- Pwll dŵr
- Ardaloedd blodau gwyllt

**Llandrindod, Spa Road East**

- Blychau ystlumod
- Blychau adar
- Cartref chwilod
- Cartrefi draenogod
- Ardal blodau gwyllt
- Bwydwyr adar

**Caerfyrddin, Teras Picton**

- Blychau adar
- Bwydwr adar
- Gerddi blodau gwyllt

**Merthyr Tudful, Parc Busnes Rhydycar**

- Gwenynfa (mewn cydweithrediad â Beacon Bees)
- Baddonau adar
- Bwydwyr adar
- Cartrefi chwilod
- Tŷ llyffantod
- Mainc gardd a blychau adar (wedi eu gwneud â llaw gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, Merthyr)
- Cartrefi draenogod
- Ardaloedd blodau gwyllt
- Pwll dŵr
- Cartref glöynnod byw

**Abertawe, Llys-y-Ddraig**


- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Pwll dŵr
- Ardal blodau gwyllt
- Cartrefi chwilod

**Nantgarw, Plas Carew**



- Ardal blodau gwyllt

**Trefforest, Canolfan QED**



- Blychau ystlumod
- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Cartrefi chwilod
- Cartrefi draenogod
- Ardal blodau gwyllt



**Bedwas, Tŷ Afon**

- Blychau ystlumod
- Bwydwr adar
- Blychau adar
- Cartrefi draenogod

**Caerdydd, Parc Cathays**



- Gerddi cyfeillgar i bryfed peillio
- Gardd blodau gwyllt ar y to
- Gwenyfa (mewn cydweithrediad â Natures Little Helpers)

I gael rhagor o wybodaeth anfonwch e-bost at **bioamrywiaeth@llyw.cymru**

OGL WG32574 © Hawlfraint y Goron 2018

# 6. Rhagolwg 2019-20

Mae blwyddyn olaf ond un Strategaeth Leoli 2015-2020 wedi gweld gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar amryw o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, ac mae cynnydd yn parhau tuag at y targedau a osodwyd ar ddechrau'r Strategaeth[11].

Mae perfformiad amgylcheddol yn sefyll allan fel llwyddiant, a disgwylir y bydd gosod boeler biomas ym Merthyr Tudful yn gwella perfformiad amgylcheddol ymhellach. Mae manteision o ran effeithlonrwydd a chost fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn wedi'u cyflawni hefyd yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Bydd rhesymoli ystad Powys a chau Tŷ Southgate, Caerdydd a Phlas Carew, Nantgarw yn helpu i leihau costau a gwella meincnodau effeithlonrwydd ymhellach. Mae cynnal ystad wasgaredig yn cyfyngu ar i ba raddau y gellir cyflawni arbedion maint trwy gael llai o adeiladau, ond mae'r dull hwn yn cynnal cyfleoedd swyddi mewn cymunedau ledled Cymru, yn helpu economïau lleol i drechu tlodi ac yn sicrhau mynediad at wasanaethau yn lleol.

Mae swyddfeydd newydd yn Noc Fictoria, Caernarfon ac Oak House, Casnewydd yn darparu amgylcheddau gwaith modern o safon uchel, gyda gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau ailwampio yn llywio'r gwaith sydd ar y gweill yn y Drenewydd a Llandrindod, ym Mhowys.

Mae cynlluniau i nodi a darparu atebion cydweithredol yn parhau o ran cydleoli a'r defnydd o adeiladau a safleoedd gwag. Mae Penrallt Uchaf yn enghraifft o adeilad gwag sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer tai, i ddiwallu anghenion lleol a darparu adfywiad angenrheidiol yng Nghanol Tref Caernarfon. Mae gwaith marchnata cychwynnol ar safle Ffordd Dinerth yn Llandrillo-yn-Rhos[12], nad yw Llywodraeth Cymru ei angen mwyach, wedi denu diddordeb addawol gan nifer o ddatblygwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r safle ar Spa Road, Llandrindod yn gyfle arall yn y dyfodol ar gyfer cyfleoedd tai ac adfywio yn unol â pholisïau.

Mae cyfyngiadau ariannol wedi effeithio ar gyflymder gweithredu ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, gan arwain at oedi'r gwaith arfaethedig o resymoli Spa Road, Llandrindod a Thŷ Ladywell, y Drenewydd tan 2020-21. Fodd bynnag, bydd y prosiectau hyn yn sicrhau bod gan staff amgylchedd gwaith o safon uchel, ac mae adleoli staff Spa Road i Neuadd y Sir, Powys yn enghraifft dda o gydweithio er lles Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir.

11 Ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant.

12 Mae'r eiddo hwn wedi bod yn wag ers rhai blynyddoedd, ond fe'i meddiannwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy tan fis Rhagfyr 2018 pan gwblhawyd ei swyddfeydd newydd.

# 7. Presenoldeb Llywodraeth Cymru Dramor 2018-19

## 7.1 Gwaith y Swyddfeydd Tramor

Mae presenoldeb Llywodraeth Cymru mewn swyddfeydd tramor yn ceisio cryfhau cysylltiadau a chysylltedd ac yn creu buddion a manteision economaidd trwy hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd. Mae'r gweithgareddau craidd yn cynnwys hyrwyddo masnach a buddsoddi; cryfhau cysylltiadau rhwng y llywodraeth a sefydliadau; twristiaeth; diwylliant ac addysg.

## 7.2 Yr Ystad Dramor

Mae'r rhwydwaith tramor wedi parhau i dyfu, gyda swyddfeydd newydd yn cael eu sefydlu yn Berlin, Dusseldorf, Doha a Paris.

Erbyn hyn, mae gan Lywodraeth Cymru 21 o swyddfeydd mewn 11 gwlad: yr Almaen; Canada; yr Emiraethau Arabaidd Unedig; Ffrainc; Gwlad Belg; India; Iwerddon; Japan; Qatar; Tsieina; a'r Unol Daleithiau. Erbyn hyn, mae 17 o swyddfeydd wedi'u cydleoli yn Llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau neu Swyddfeydd Is-genhadon y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, gan gryfhau cysylltiadau sefydliadol a chyfleoedd rhwydweithio.

Yn ystod 2017, diwygiodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad y mecanwaith codi tâl ar gyfer partneriaid sydd wedi arwain at newid i'r fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gofnodi taliadau. Nid oes unrhyw daliadau llawn am swyddfeydd newydd yn y 2 flynedd gyntaf.

2018-19 yw'r flwyddyn gyntaf gyda chostau blwyddyn lawn ar gyfer swyddfeydd Tokyo a Mumbai. Rydym yn disgwyl costau llawn agor swyddfa Montreal a chostau ar gyfer y swyddfeydd newydd yn Berlin, Doha, Dusseldorf a Paris, a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn 2019-20.

Mae holl gostau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynnwys cynnydd o 2.4%; ac mae'r ffaith bod y gyfradd gyfnewid yn newid o hyd wedi cael effaith andwyol ar gostau hefyd.






## Yr Ystad Dramor, Costau Rhedeg Blynyddol (£)

| | 2014-2015 | 2015-2016 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Atlanta | - | 9,000.00 | 9,000.00 | 5,199 | 15,301 |
| Bangalore | 18,000.00 | 18,000.00 | 9,000.00 | 4,308 | 15,301 |
| Beijing | 16,587.86 | 16,661.70 | 17,330.76 | 17,614 | 20,569 |
| Berlin | - | - | - | - | 0 |
| Brwsel | 247,951.00 | 231,989.00 | 317,105.00 | 246,378 | 268,000 |
| Chicago | 9,000.00 | 9,000.00 | 9,000.00 | 5,793 | 15,301 |
| Chongqing | 26,780.62 | 29,425.94 | 36,790.17 | 40,418 | 41,573 |
| Doha | - | - | - | - | 0 |
| Dubai | 18,162.74 | 18,000.00 | 18,000.00 | 13,666 | 30,603 |
| Dulyn | 9,000.00 | 9,000.00 | 9,765.33 | 14,409 | 15,301 |
| Dusseldorf | - | - | - | - | 0 |
| Montreal | - | - | - | 236 | 252 |
| Mumbai | 25,981.10 | 29,470.72 | 38,133.36 | 273 | 30,603 |
| New Delhi | 9,000.00 | 9,000.00 | 9,000.00 | 3,417 | 15,301 |
| Efrog Newydd | 27,000.00 | 27,000.00 | 18,000.00 | 24,065 | 30,603 |
| Paris | - | - | - | - | 0 |
| San Francisco | 9,000.00 | 9,000.00 | 9,000.00 | 5,496 | 15,301 |
| Shanghai | 31,518.56 | 17,979.31 | 17,464.74 | 18,736 | 20,430 |
| Tokyo | 59,397.35 | 6,139.01 | 5,874.54 | 630 | 53,555 |
| Washington | 18,000.00 | 22,871.81 | 27,000.00 | 34,319 | 45,904 |
| | **£525,379.23** | **£517,789.49** | **£550,463.90** | **£434,958** | **£663,899** |

# Atodiad 1: Data Eiddo Craidd 2018-19

| Cyfeiriad | Cyfanswm perchnogaeth AMN Llywodraeth Cymru | AMN metr sgwâr | Staff Snowdrop 2019 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio lle Llywodraeth Cymru) | Metr sgwâr fesul aelod staff Snowdrop | Cymhareb ddesg | Deiliadaeth | Alldaliadau Blynyddol ac eithrio Rhent ac Ardrethi | Ardrethi a dalwyd 2019 | Rhent* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CP1 a CP2 Parc Cathays, Caerdydd | 37,904 | 37,696 | 2,499.2 | 15 | 1.06 | ○ | £4,357,680 | £1,221,719 | £1,834,292 |
| Rhan o Lawr 2/Rhan o Lawr 5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | | 1,792 | 119.2 | 15 | 1.43 | ■ | £55,492 | £0 | £0 |
| Tŷ Southgate, Caerdydd (Llawr 1) | | 371 | 29.6 | 13 | 1.25 | ■ | £88,615 | £21,151 | £54,000 |
| Tŷ'r Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili | | 2,486 | 148.2 | 17 | 1.67 | ■ | £255,992 | £121,813 | £373,568 |
| Rhyd-y-car, Merthyr Tudful | 6,097 | 6,097 | 564.7 | 11 | 1.02 | ○ | £1,189,945 | £254,430 | £550,000 |
| Plas Carew, Nantgarw (Unedau 5/7) | | 1,950 | 83.7 | 23 | 1.76 | ■ | £224,769 | £103,828 | £327,194 |
| Llawr 3, Tŷ Clarence, Casnewydd | | 311 | 35.1 | 9 | 0.88 | ■ | £35,295 | £15,035 | £44,669 |
| Canolfan QED, Ystad diwydiannol Trefforest, Pontypridd | | 3,763 | 322.1 | 12 | 1.34 | ■ | £463,742 | £165,495 | £275,000 |
| Heol Picton, Caerfyrddin | 3,791 | 3,209 | 234.0 | 14 | 1.06 | ○ | £272,035 | £140,708 | £245,479 |
| Havenshead BP, Aberdaugleddau | | 155 | 20.4 | 8 | 0.88 | ■ | £18,977 | £6,811 | £14,000 |
| Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penlle'r-gaer, Abertawe | 1,792 | 1,713 | 249.2 | 7 | 0.91 | ○ | £292,267 | £74,193 | £143,535 |

| Cyfeiriad | Cyfanswm perchnogaeth AMN Llywodraeth Cymru | AMN metr sgwâr | Staff Snowdrop 2019 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio lle Llywodraeth Cymru) | Metr sgwâr fesul aelod staff Snowdrop | Cymhareb ddesg | Deiliadaeth | Alldaliadau Blynyddol ac eithrio Rhent ac Ardrethi | Ardrethi a dalwyd 2019 | Rhent* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth | 6,612 | 6,151 | 248.9 | 25 | 1.57 | ○ | £949,663 | £253,426 | £501,356 |
| Spa Road East, Llandrindod | 2,672 | 2,350 | 96.0 | 24 | 1.44 | ○ | £223,485 | £47,014 | £141,609 |
| Tŷ Ladywell, Y Drenewydd | | 1,495 | 67.0 | 22 | 1.51 | ■ | £175,725 | £43,947 | £150,900 |
| Timekeepers Office, Caergybi | | 55 | 9.6 | 6 | 1.67 | ■ | £16,388 | £0 | £5,000 |
| Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno | 7,105 | 6,186 | 402.1 | 15 | 1.11 | ○ | £959,111 | £343,693 | £550,389 |
| 1 Grosvenor Lodge, Grosvenor Road, Wrecsam | | 318 | 14.1 | 23 | 1.70 | ■ | £35,952 | £12,978 | £40,800 |
| Ystafelloedd 5, 7 ac 8 Bloc A, Doc Fictoria, Caernarfon | | 738 | 76.2 | 10 | 0.80 | ■ | £113,975 | £36,864 | £76,200 |

○ Rhydd-ddaliad ■ Lesddaliad

Dangosir eiddo rhydd-ddaliad a lesddaliad tymor hir fel rhenti tybiannol. Mae rhenti ar gyfer yr arwynebedd llawr a feddiannir gan Lywodraeth Cymru.

* Mae'r ffigurau'n cynnwys TAW, lle mae'r dreth honno'n daladwy.

# Atodiad 2: Arbedion y Strategaeth Leoli

## Arbedion a Gyflawnwyd o Eiddo a Adawyd 2010-2015

| | Eiddo a Adawyd | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2010-11 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2011-12 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2012-13 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2013-14 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2014-15 | Cyfanswm 5 Mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2010-11 | 16 | £663,026 | £1,447,305 | £1,447,305 | £1,447,305 | £1,447,305 | **£6,452,246** |
| 2011-12 | 9 | | £1,415,623 | £2,003,958 | £2,003,958 | £2,003,958 | **£7,427,497** |
| 2012-13 | 7 | | | £856,498 | £1,290,266 | £1,290,266 | **£3,437,030** |
| 2013-14 | 8 | | | | £565,130 | £905,270 | **£1,470,400** |
| 2014-15 | 4 | | | | | £478,939 | **£478,939** |
| **Cyfanswm yr Arbedion** | **44** | | | | | | **£19,266,112** |

## Arbedion a Gyflawnwyd o Eiddo a Adawyd 2015-2020

| | Dyddiad gadael | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2015-16 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2016-17 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2017-18 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2018-19 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2019-20 | Cyfanswm 5 Mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tŷ Wynchway, Hwlffordd | 01/02/16 | £21,861 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | **£546,533** |
| Ffordd Arran, Dolgellau | 31/03/16 | – | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | **£28,292** |
| Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth | 31/03/16 | – | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | **£116,376** |
| Brecon House, Caerffili | 31/05/17 | - | - | £106,280 | £127,606 | £127,606 | **£361,492** |
| Tŷ'r Llyn, Abertawe | 23/06/17 | - | - | £371,811 | £481,245 | £481,245 | **£1,334,301** |
| Hen Ficerdy, Caergybi | 12/01/18 | - | - | £7,110 | £33,271 | £33,271 | **£73,652** |
| Hill House, Heol Picton, Caerfyrddin | 01/04/18 | - | - | - | £139,078 | £139,078 | **£278,156** |
| Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr | 22/06/18 | - | - | - | £92,863 | £119,770 | **£212,633** |
| Adeiladau'r Goron, Penrallt Uchaf, Caernarfon | 27/07/18 | - | - | - | £242,337 | £356,666 | **£599,003** |
| **Cyfanswm yr Arbedion** | | **£21,861** | **£167,335** | **£652,536** | **£1,283,735** | **£1,424,971** | **£3,550,438** |


Ni waredwyd unrhyw eiddo yn ystod 2016-17.
Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael eiddo lesddaliad ym Mhorthladd Caergybi a Doc Fictoria, Caernarfon.

# Atodiad 3: Trosolwg Rhanbarthol

Eiddo: 4
Arwynebedd Llawr: 7,297 metr sgwâr
Cost Flynyddol: £2,191,350
Staff: 502

Eiddo: 3
Arwynebedd Llawr: 9,996 metr sgwâr
Cost Flynyddol: £2,487,125
Staff: 412

Eiddo: 3
Arwynebedd Llawr: 5,077 metr sgwâr
Cost Flynyddol: £1,208,005
Staff: 504




Eiddo: 5
Arwynebedd Llawr: 14,607 metr sgwâr
Cost Flynyddol: £4,400,775
Staff: 1,154

Eiddo: 3
Arwynebedd Llawr: 39,859 metr sgwâr
Cost Flynyddol: £7,632,949
Staff: 2,647

# Atodiad 4: Crynodeb o Berfformiad 2014-2019

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad – metr sgwâr | 84,572 | 82,295 | 81,888 | 82,275 | 80,325 | 76,836 |
| Nifer yr Eiddo | 29 | 25 | 22 | 22 | 20 | 18 |
| Cost yr Ystad £ | 17.941 | 18.136 | 17.428 | 18.417 | 18.477 | 17.920 |
| Rhent £ | 6.169 | 5.849 | 5.835 | 5.891 | 5.600 | 5.328 |
| Ardrethi £ | 2.781 | 2.721 | 2.771 | 2.785 | 2.810 | 2.863 |
| Arall £ | 8.990 | 9.564 | 8.821 | 9.740 | 10.067 | 9.729 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| Cost fesul FTE | 3,285 | 3,139 | 3,229 | 3,380 | 3,576 | 3,428 |
| Effeithlonrwydd o ran Cost – £ fesul metr sgwâr | 212.14 | 220.37 | 212.82 | 223.85 | 230.02 | 233.22 |
| Rhent £ fesul metr sgwâr | 72.95 | 71.08 | 71.26 | 71.61 | 69.71 | 69.34 |
| Ardrethi £ fesul metr sgwâr | 32.88 | 33.07 | 33.84 | 33.85 | 34.98 | 37.26 |
| Arall £ fesul metr sgwâr | 106.31 | 116.23 | 107.72 | 118.39 | 125.33 | 126.62 |
| Effeithlonrwydd o ran Lle – metr sgwâr fesul FTE | 15.5 | 14.2 | 15.2 | 15.1 | 15.5 | 14.7 |
| Metr sgwâr fesul gweithfan | 12.30 | 114.46 | 11.95 | 12.21 | 12.63 | 12.91 |
| Gweithfannau fesul FTE | 1.26 | 1.24 | 1.27 | 1.24 | 1.23 | 1.14 |
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | | |
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 9,220 | 8,498 | 6,939 | 6,259 | 5,376 | 4,236 |
| Trydan (t $CO_2$) | 7,683 | 7,185 | 5,863 | 5,193 | 4,259 | 3,193 |
| Nwy (t $CO_2$) | 1,537 | 1,313 | 1,076 | 1,066 | 1,117 | 1,043 |
| Cyfanswm gwastraff sy'n dod i'r golwg (Tunelli) | 583 | 500 | 498 | 553 | 350 | 372 |
| Safle Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 31 | 25 | 22 | 18.5 | 12 | 1 |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 69 | 75 | 78 | 81.5 | 88 | 88 |
| Dŵr (CU.M/unigolyn/blwyddyn) | 9.8 | 8.3 | 8 | 7.1 | 6.3 | 6.2 |

Mae'r ffigurau yn cynnwys y defnydd o olew ac LPG.

# Atodiad 5: Astudiaeth Achos – Gwelliannau Amgylcheddol yn Heol Picton


Mae swyddfa Llywodraeth Cymru yn Heol Picton, Caerfyrddin wedi'i hailwampio i wella effeithlonrwydd ynni a lefelau cysur staff ac i ddarparu mannau gweithio hyblyg a chydweithredol. Cafodd yr ardaloedd mewnol eu hailaddurno, gosodwyd cladin wedi'i inswleiddio ar wyneb allanol adeilad a chrëwyd mynedfa newydd, derbynfa ddiogel a mannau pwrpasol ar gyfer cyfarfod â chleientiaid.

Cafodd rhaniadau, drysau, nenfydau a lloriau presennol eu tynnu i greu amgylchedd gwaith modern a hyblyg. Mae'r ystafelloedd cyfarfod bellach yn elwa ar raniadau a drysau gwydr, ac mae mannau gweithio cydweithredol newydd wedi'u creu ar hyd yr adeilad. Gosodwyd teils carped yn lle'r hen loriau a rhoddwyd finyl gwrth-lithro ar loriau'r ceginau a'r toiledau. Cafodd waliau a nenfydau eu hailbeintio.

Mae cladin wedi'i inswleiddio ar wyneb allanol yr adeilad yn helpu i reoleiddio'r tymheredd y tu mewn i'r adeilad yn fwy effeithiol, ac mae'r ffenestri newydd sy'n agor yn awtomatig yn cynnal tymheredd cyfforddus ac yn gadael digon o awyr iach i mewn.

Mae systemau boeler cyddwyso nwy newydd wedi llwyddo i leihau'r defnydd o nwy oddeutu 15%. Yn ogystal, mae gosod system rheoli adeilad ddeallus wedi galluogi monitro perfformiad ac effeithlonrwydd ynni y systemau gwresogi a dŵr poeth o bell.






Gosodwyd goleuadau LED yn lle'r goleuadau fflwroleuol aneffeithlon gwreiddiol, a gosodwyd system reoli awtomatig i sicrhau lefelau golau priodol ac i leihau gwastraff mewn ardaloedd gwag. Mae paneli solar ffotofoltäig (PV) wedi'u gosod ar y to, gan ategu'r cyflenwad trydan o'r grid.

Mae'r gwelliannau hyn wedi lleihau'r defnydd o ynni 30% y flwyddyn. Maent wedi llwyddo i wella cysur y gweithwyr hefyd: mae'r adeilad yn cynhesu ac oeri yn gyflymach, gan reoleiddio tymereddau yn fwy effeithiol a lleihau gwastraff. Mae lefelau golau yn cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol i weithgareddau gwaith, a gellir eu haddasu'n lleol yn unol â defnydd.

Mae'r gwaith o ailwampio Heol Picton yn dangos effaith y gwaith o ailwampio eiddo ystad weinyddol Llywodraeth Cymru ar effeithlonrwydd ynni a phrofiad y bobl yn yr eiddo.



# Atodiad 6: Astudiaeth Achos Doc Fictoria, Caernarfon

Mae nodau craidd Strategaeth Leoli 2015-2020 yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr ystad weinyddol: gwireddu cyfleoedd i resymoli, gan geisio cynnal presenoldeb gwasgaredig yr un pryd, a gwella ansawdd y llety er lles staff ac ymwelwyr. Felly, mae rhesymoli yn fwy na chynyddu arbedion ariannol. Mae angen i benderfyniadau fod yn ystyriol o'r angen i sicrhau bod swyddi a gwasanaethau yn parhau i gael eu gwasgaru ar draws cymunedau Cymru.

Cydnabuwyd bod moderneiddio arferion gwaith trwy ddechrau gweithio'n glyfar a defnyddio technolegau newydd yn sbardun allweddol i leihau'r arwynebedd llawr sydd ei angen; i ddarparu gwasanaethau o safon a gwella'r amgylchedd swyddfa.

Fel un o'r swyddfeydd lleiaf effeithlon o ran arwynebedd llawr, gyda 34 metr sgwâr fesul FTE, roedd Penrallt Uchaf yng Nghaernarfon yn gyfle gwych i wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol a gwella ansawdd amgylchedd y swyddfa. Y bwriad oedd adleoli staff i eiddo o faint mwy priodol yn y dref, ac yna gwaredu'r adeilad gwag i'w ailddatblygu i wella'r economi a'r amgylchedd lleol yng Nghaernarfon.

Cymhlethwyd hyn gan ddiffyg llety o faint priodol yng Nghaernarfon a phresenoldeb adrannau Llywodraeth y DU – DEFRA a Chanolfan Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau – fel tenantiaid. Fel gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng nghanol tref Caernarfon, roedd hi'n bwysig bod pob un yn cadw presenoldeb gweithredol yn y dref.

Nododd Llywodraeth Cymru ei gofynion o ran lle, ond roedd diffyg swyddfeydd o faint addas yn llesteirio ymdrechion i adleoli yn y dref. Gan gydweithio â'r perchnogion adeiladau Watkin Jones a Chomisiynydd y Gymraeg, dyfeisiwyd cynllun lle byddai Comisiynydd y Gymraeg yn adleoli i'r un adeilad yn Noc Fictoria a byddai Llywodraeth Cymru yn cyfuno ei hystafelloedd a'r swyddfeydd gwag oedd yn weddill ar yr ail lawr at ei defnydd ei hun.

Cafodd y swyddfeydd eu cyfarparu i'r safonau gweithio'n glyfar diweddaraf, a chafodd staff eu symud o Benrallt Uchaf ym mis Gorffennaf 2018.

Gan weithio gyda Chyngor Sir Gwynedd, symudodd DEFRA o Benrallt Uchaf i swyddfeydd presennol y Cyngor Sir; syniad tîm Ystadau Llywodraeth Cymru. Arhosodd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn y dref hefyd, gydag eiddo newydd ar Ffordd Santes Helen, ger Castell Caernarfon a'r Maes.

Mae'r enillion net o symud i eiddo o faint priodol, sef 10 metr sgwâr fesul FTE, yn dod i oddeutu £1,700 fesul FTE yng Nghaernarfon. Mae adborth staff ar yr amgylchedd gwaith newydd wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae adeilad Penrallt Uchaf wedi'i farchnata'n llwyddiannus a chytunwyd i'w werthu. Bydd y cynnig, sef troi'r adeilad yn fflatiau o safon uchel i'w gwerthu a'u rhentu, yn ased i amgylchedd canol y dref a'r economi leol.



# Atodiad 7: Eiddo y tu allan i Gwmpas yr Adroddiad – Ystad Arbenigol

| Cyfeiriad | Rheswm dros ei hepgor | Arwynebedd Llawr | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2016-2017 | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2017-2018 | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2018-2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 Victoria Street, San Steffan | Swyddfa y tu allan i Gymru | 304 | £34,994 | £479,844 | £435,749 |
| 31/33 Heol Casnewydd, Caerdydd | Defnydd Arbenigol | 172 | £155,713 | £162,317 | £185,413 |
| Cyfleuster Arbenigol, Cil-y-coed | Defnydd Arbenigol | N/A | £523,807 | £768,651 | £544,002 |
| Ystad fasnachu Llandochau, Caerdydd (Uned 22) | Defnydd Arbenigol | 615 | £134,183 | £138,497 | £106,170 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Coryton, Caerdydd | Defnydd Arbenigol (traffig) | 763 | £230,799 | £236,951 | £298,460 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Parc Busnes Morfa, Ffordd Sam Pari, Morfa | Defnydd Arbenigol (traffig) | 1,128 | £165,272 | £190,144 | £179,382 |
| Plot 233, Pafiliwn Maes y Sioe Frenhinol, Llanfair-ym-Muallt | Defnydd Arbenigol (Pafiliwn) | 220 | £50,600 | £74,932 | £69,050 |
| Adeiladau Arbenigol Materion Gwledig, Sir Gaerfyrddin | Defnydd Arbenigol | 452 | £49,592 | £34,123 | £36,957 |